**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

06 Ionawr 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr 2022 yn gofyn am fwy o wybodaeth yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth ar 17 Tachwedd 2022 i'ch ymchwiliad i'r ffframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Rydych wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynghylch y canlynol:

**1. Hyfforddiant i athrawon cyfrwng Cymraeg**

1.1 Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i (…) oresgyn yr heriau a ddaw o ran recriwtio staff i weithio mewn lleoliadau meithrin cyfrwng Cymraeg
1.2 Pa ystyriaeth a roddwyd i annog disgyblion ar gam cynharach i ddilyn llwybr gyrfa ym maes addysg cyfrwng Cymraeg

**2. Data CYBLD ar effeithiau COVID-19 ar fynediad**

2.1 Data CYBLD ar gyfer eleni, ac ar gyfer y tair blynedd diwethaf
2.2 Cadarnhad a yw'r data CYBLD sydd ar gael i'r cyhoedd drwy StatsCymru hefyd ar gael fel canran o nifer y disgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg yn dair a saith oed (cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 1), ac yn yr ysgol uwchradd (mynediad cyfnod allweddol 3).

Gweler isod fy ymatebion yn unol a'ch cais.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## 1. Hyfforddiant i athrawon cyfrwng Cymraeg

1.1 Mae’r rhaglen sydd wedi cael ei ddatblygu gan Mudiad Meithrin a gyfeirir ato yn eich llythyr yn cael ei redeg yn uniongyrchol gan Mudiad Meithrin ac nid yw yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, rydym wedi darparu £3.78 miliwn o gyllid dros 22-23, 23-24 a 24-25 i gefnogi a thyfu darpariaeth ac ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yng Nghymru trwy amrywiaeth o lwybrau:

- penodi Swyddogion Datblygu o fewn pob un o bum aelod consortiwm Cwlwm;
- darparu 100 yn ychwanegol o recriwtiaid i ymgymryd â chymwysterau gofal plant Lefel 3 cyfrwng Cymraeg a 50 yn ychwanegol o recriwtiaid i ymgymryd â chymwysterau gofal plant Lefel 5 cyfrwng Cymraeg;
- Darpariaeth ar gyfer mwy o glybiau chwarae ac ar ôl ysgol i hyfforddi mewn cymhwyster gwaith chwarae i gefnogi ehangu gwasanaethau cofrestredig;
- cefnogaeth i 40 lleoliadau ychwanegol drwy Croesi'r Bont sy'n cynnig cefnogaeth iaith i leoliadau newydd a sefydlwyd dan y rhaglen Sefydlu a Symud a lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n edrych i gyflwyno neu wella'r ddarpariaeth Gymraeg sydd â'r nod o wella sgiliau iaith yn y gweithlu presennol;
- cefnogi cynnydd ym maes gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant a chefnogaeth cyn-gofrestru;
- cefnogi camau i annog cofrestru lleoliadau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg heb eu cofrestru ac annog lleoliadau dwyieithog i symud tuag at statws cyfrwng Cymraeg fel iaith weithredol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chanolfan Dysgu Cymru Genedlaethol fel rhan o'n rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant a ariennir gan CGE[1] i ddatblygu cyrsiau pwrpasol yn y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr gofal plant a chwarae. Mae'r rhain yn targedu ymarferwyr presennol yn benodol sy'n gweithio o fewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog, er mwyn rhoi hyder iddynt ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'r plant yn eu lleoliadau fel rhan o'u darpariaeth o ddydd i ddydd. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datblygu dau gwrs ar lefelau uwch er mwyn sicrhau bod piblinell o ddysgu ar gyfer gofal plant ac ymarferwyr chwarae i barhau i ddatblygu sgiliau a hyder yn y Gymraeg yn y sector.

1.2 Rydym yn glir yng nghynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg, er bod targedu graddedigion a'u hannog i astudio tuag at statws athro cymwysedig (SAC) yn

[1] Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwysig, mae'n aml yn rhy hwyr ac mae pobl ifanc eisoes wedi gwneud penderfyniadau ar lwybrau gyrfaol y maent am eu dilyn. Felly, un o amcanion y cynllun yw cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg (lefel uwch ac ar lefel israddedig) i greu piblinell ddigonol o athrawon y dyfodol ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae gan awdurdodau lleol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl allweddol o ran cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-16 ac ar lefel israddedig. Fy ngobaith yw gweld nifer y dysgwyr sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu yn unol â thargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac yn sgil y buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 drwy'r Coleg.

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg eisoes yn gweithio'n agos gydag ysgolion, dysgwyr ac israddedigion i hyrwyddo llwybrau i addysgu, ac rydym wedi gofyn iddynt gwmpasu datblygiad llwybr prentisiaeth neu gymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 fel llwybr i addysgu.

Trwy gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r Coleg wedi gweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu a chyflwyno modiwlau ar gyfer israddedigion er mwyn iddynt gael profiad o fod mewn ystafell ddosbarth a pharatoi ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (AGA). Mae'r Coleg hefyd yn datblygu ysgoloriaeth ariannol beilot a mentora i israddedigion i'w cefnogi i baratoi ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys targedu dysgwyr sy'n astudio yn Lloegr.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu prosiect peilot 'blwyddyn gap' i ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn 18 oed i gael blwyddyn allan er mwyn cael profiad fel cynorthwyydd addysgu cyn mynd ymlaen i'r brifysgol.

**2. Data CYBLD ar effeithiau COVID-19 ar fynediad**

2.1 Mae data CYBLD ar nifer a chanran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf ar gael ar StatsCymru. Mae'r data o 2011/12 hyd at 2021/22.

2.2 Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nifer y disgyblion a addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf; cyfanswm y disgyblion a chanran y disgyblion a addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf fesul awdurdod lleol ac fel Rhanbarth. Mae'r data ar gael o oed meithrin hyd at Blwyddyn 13. Gallwch gael mynediad at y data perthnasol drwy ddewis o'r ddewislen ar y tabiau - Mesur a Blwyddyn.

Mae'r wybodaeth hon yn rhan o'r proffil data cenedlaethol a lleol y gwnaeth Llywodraeth Cymru lunio a rhannu gydag awdurdodau lleol i'w cynorthwyo wrth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

baratoi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym wedi ymrwymo i ddiweddau’r proffil data yn flynyddol.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.